# Ordinhad 16

# Y Bwrdd Gweithredol

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 16
# Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol fydd uwch grŵp rheoli'r sefydliad, ac yn atebol i'r Cyngor.

1. Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Ex-officio: | Y Llywydd / Is-ganghellor (Cadeirydd) |
| | Y Dirprwy(on) i'r Is-ganghellor |
| | Y Dirprwy Is-gangellorion |
| | Y Dirprwy Is-gangellorion / Penaethiaid Colegau |
| | Y Prif Swyddog Gweithredu |
| | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| | Y Prif Swyddog Marchnata |
| | Y Prif Swyddog Cyllid |
| | Y Prif Swyddog Pobl |
| | Y Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio |

2. Cylch Gorchwyl

a) Datblygu, ystyried, argymell a bod yn gyfrifol am weithredu strategaeth gyffredinol y brifysgol, gan gynnwys gosod targedau a monitro eu cyflawniad.

b) Ystyried, cytuno ar, a gweithredu polisi cyffredinol y brifysgol.

c) Bod yn gyfrifol am reolaeth ariannol y brifysgol, gan gynnwys dyrannu adnoddau, pennu cyllidebau a monitro perfformiad ariannol.

d) Bod yn gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth feunyddiol gyffredinol y brifysgol.

e) Ystyried lefelau staffio mewn canolfannau adnoddau ac ysgolion/adrannau, ac ystyried a, lle bo hynny'n briodol, cymeradwyo penodiadau i swyddi neu swyddi newydd yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, ac yn unol â chynllun strategol y brifysgol.

f) Bod yn gyfrifol am faint, ffurf a strwythur academaidd, (gan gynnwys sefydlu neu derfynu meysydd pwnc) ac am strwythur rheoli a chefnogi'r brifysgol.

g) Monitro perfformiad y brifysgol ym mhob agwedd a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fesur cyflawniad a pherfformiad.

h) Ymgynghori fel y bo'n briodol o fewn y sefydliad i wneud penderfyniadau ar lefel uwch reolwyr mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosib, a chyfathrebu'r rhain o fewn y sefydliad.

i) Rhoi arweiniad o fewn y brifysgol.

j) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ac i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu hawdurdodaeth.

k) Bydd y Bwrdd Gweithredol yn darparu adroddiad i'r Cyngor ym mhob cyfarfod.

3. Bydd gan y Bwrdd Gweithredol y pŵer i sefydlu byrddau, pwyllgorau neu grwpiau llywio / strategaeth, a chytuno ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl mewn ymgynghoriad â'r corff dan sylw.